| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Cyngor Sir** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **9fed Ebrill 2013** |
| **Aelod Arweiniol/Swyddog:** | **Aelod Arweiniol Moderneiddio a Pherfformiad** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Gary Williams, Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd** |
| **Teitl:** | **Penodi Hyrwyddwr Digartrefedd** |

---

## 1 Beth yw byrdwn yr adroddiad?

1.1 Penodi Hyrwyddwr Digartrefedd.

## 2 Pam cyflwyno'r adroddiad hwn?

2.1 Penodi Aelod o'r Cyngor i rôl Hyrwyddwr Digartrefedd.

## 3 Beth yw'r argymhellion?

3.1 Bod y Cyngor yn penodi Aelod i rôl Hyrwyddwr Digartrefedd.

## 4 Manylion yr adroddiad

4.1 Mae Cyfansoddiad y Cyngor ar hyn o bryd yn nodi pedair rôl Hyrwyddwr, sef:

- Hyrwyddwr Pobl Hŷn
- Hyrwyddwr Digartrefedd
- Hyrwyddwr Gofalwyr
- Hyrwyddwr Anabledd Dysgu

4.2 Yn ei gyfarfod ar 6ed Tachwedd 2012, penderfynodd y Cyngor y dylid penodi i'r bedair rôl a nodwyd yn 4.1 uchod yng nghyfarfod y Cyngor ar 4ydd Rhagfyr 2012 a mabwysiadodd ddisgrifiadau rôl ar gyfer yr Hyrwyddwyr hyn. Nodir y disgrifiadau hyn yn Atodiad 1.

4.3 Yn ei gyfarfod ar 4ydd Rhagfyr 2012 penododd y Cyngor yr hyrwyddwyr canlynol:

- Hyrwyddwr Pobl Hŷn – Y Cynghorydd R L Feeley
- Hyrwyddwr Gofalwyr – Y Cynghorydd J A Davies
- Hyrwyddwr Anabledd Dysgu – Y Cynghorydd J R Bartley

4.4 Ar y pryd nid oedd enwebiad ar gyfer rôl Hyrwyddwr Digartrefedd. Cytunwyd y byddai rôl yr Hyrwyddwr Digartrefedd yn cael ei hystyried gan y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol ynghyd â rolau Hyrwyddwyr eraill a awgrymwyd.

4.5 Ystyriodd y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol a ddylid argymell rolau pellach Hyrwyddwyr yn ei gyfarfod ar 27ain Chwefror 2013.

4.6 Mae copi o'r adroddiad a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol ynghlwm fel Atodiad 2.

4.7 Penderfynodd y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol beidio ag argymell rolau Hyrwyddwyr pellach ond penderfynu y dylid cadw rôl yr Hyrwyddwr Digartrefedd a'i llenwi cyn gynted ag y bo modd.

4.8 Gofynnwyd i'r holl Gynghorwyr mewn ebost dyddiedig 12fed Mawrth 2013 nodi a hoffent gael eu hystyried ar gyfer rôl Hyrwyddwr Digartrefedd a chyflwyno curriculum vitae i'w ddosbarthu gyda'r adroddiad hwn os oedd ganddynt ddiddordeb.

4.9 Mae'r curricula vitae a dderbyniwyd ynghlwm fel Atodiad 3 i'r adroddiad.

## 5 Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu tuag at Flaenoriaethau Corfforaethol?

5.1 Bydd rôl Hyrwyddwr Digartrefedd yn cyfrannu tuag at y flaenoriaeth o sicrhau bod tai o ansawdd da ar gael.

## 6 Beth fydd yn ei gostio a sut fydd yn effeithio gwasanaethau eraill?

6.1 Nid oes goblygiadau i wasanaethau eraill o ganlyniad i'r adroddiad hwn.

## 7 Pa ymgynghori a fu?

7.1 Mae'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol wedi ystyried rolau Hyrwyddwyr ac wedi argymell bod rôl yr Hyrwyddwr Digartrefedd yn cael ei llenwi. Gofynnwyd i bob Cynghorydd nodi a hoffent gael eu hystyried.

## 8 Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

8.1 Nid oes costau ychwanegol yn gysylltiedig â phenodi Hyrwyddwr Digartrefedd.

## 9 Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y medrwn ei wneud i'w lleihau?

9.1 Nid oes risgiau wedi eu hadnabod.

## 10 Pŵer i wneud y penderfyniad?

10.1 Erthygl 2.6 Cyfansoddiad y Cyngor.